# CANLLAW DEFNYDDWYR –
# AP CYFYNGEDIG MODERN.GOV
# (fersiwn iPad)


Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Democrataidd Sir Gaerfyrddin.

01267 224028

Democraticservices@sirgar.gov.uk



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Nod y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth sylfaenol i Aelodau a swyddogion am ddefnyddio elfen Papurau Preifat yr Ap Mod.Gov. Mae PAPURAU PREIFAT yn golygu papurau sydd ar gael i aelodau ar gyfer eu pwyllgor perthnasol, gan gynnwys unrhyw adroddiadau eithriedig

Drwy broses gofrestru bydd gan Aelodau Etholedig a swyddogion hawl i weld y Pecyn Preifat llawn ar gyfer y Pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt. Caiff y pecyn ei lawrlwytho yn awtomatig ar eu dyfais.

Anfonwyd e-bost cofrestru at bob aelod er mwyn cael mynediad i Mod.Gov, gan gynnwys yr ap cyfyngedig. Ar ôl cwblhau'r broses gofrestru byddwch yn gallu gweld y papurau preifat. Am resymau diogelwch bydd yr ap cyfyngedig yn gofyn i chi roi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair er mwyn cael mynediad bob tro. Os nad ydych wedi clicio ar y ddolen gyswllt hon, bydd gennych fynediad i'r papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyffredinol yn unig.

Ap cyfyngedig – Sir Gar Private neu Carmarthenshire Private

Ap cyhoeddus – Sir Gar neu Carmarthenshire

Pan fydd eich dyfais wedi'i gofrestru ar yr ap cyfyngedig, byddwch yn gallu gweld yr holl ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau eithriedig, ond dim ond ar gyfer y Pwyllgorau yr ydych yn aelod ohonynt.

Os nad ydych wedi cofrestru eich dyfais, cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn anfon dolen gofrestru newydd atoch.

Os oes angen help arnoch i gofrestru'r ap cyfyngedig, gweler y ddolen fideo hon (bydd yn agor mewn ffenestr newydd):-

uploads/47/Registering_the_restricted_app.mp4

## Y Cynnwys


## Y Cynnwys


| | |
|---|---|
| Mewngofnodi | 3 |
| Dewis Pwyllgorau i'w gweld | 4 |
| Gosodiadau | 5 - 6 |
| Pori drwy'r dogfennau:- | |
| Clo a Nodau Tudalen | 7 |
| Chwilio'r testun | 8 |
| Ymlaen tudalen/ Yn ôl tudalen | 9 |
| Chwilio yn ôl rhif y dudalen | 10 |
| Nodiadau | 11 |
| Canllaw cyflym i'r Eiconau | 15 |

1. Mewngofnodwch ar eich dyfais
2. Chwiliwch am ap Mod.Gov

   neu


3. Pan ofynnir ichi, rhowch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair
   - Cofiwch y bydd angen eich cyfeiriad e-bost llawn ac fel rheol eich cyfrinair rhwydwaith (os ydych wedi gofyn i'r Gwasanaethau Democrataidd am gyfrinair gwahanol, defnyddiwch hwnnw)




Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'r ap gallwch newid pa gyhoeddwr rydych yn edrych arno yn y gornel chwith uchaf.

## Dewiswch y Pwyllgorau yr hoffech eu gweld (gallwch ychwanegu rhagor unrhyw bryd):-

Dewiswch y Pwyllgorau yr hoffech eu gweld drwy bwyso ar enw pob pwyllgor a bydd tic glas yn ymddangos, yna cliciwch ar Wedi Gwneud *(Done)*




**Bydd yr ap wedyn yn lawrlwytho'r dogfennau (gall hyn gymryd peth amser). Pwyswch ar y cyfarfod i weld y ddogfen**


**Siart lliwiau:-**

**Glas llachar - Dogfen wedi'i lawrlwytho**

**Glas golau - Dogfen wrthi'n lawrlwytho**

**Os yw'r Pwyllgor yn ymddangos yn wyn, nid oes adroddiadau sydd wedi'u heithrio; os yw'r Pwyllgor yn ymddangos yn binc, mae'r agenda yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio.**

**Gosodiadau**





## Rheoli eich gosodiadau:-

Mae'r ddewislen o dan y gogen ar y gornel dde uchaf yn caniatáu ichi

- ddewis o blith cyhoeddwyr eraill a gwybodaeth gyhoeddus gan awdurdodau lleol eraill
- newid iaith yr ap cyfan er mwyn i'r dewislenni ymddangos yn Gymraeg
- dewis am ba hyd y bydd y dogfennau'n cael eu cadw yn ap Mod.Gov, gan dybio nad oes angen ailosod yr ap am ba reswm bynnag ymhen 3


mis. Os oes dogfennau penodol yr hoffech eu cadw am gyfnod hirach, mae modd eu pinio yn yr Ap.

1. **Gosodiadau** 
2. **Rheoli**  **Dogfennau**
3. Dewiswch y Ddogfen (dogfennau) Perthnasol

 4. **Pinio**

Sylwer, ni fydd modd defnyddio dogfennau Preifat, gan gynnwys Papurau Cyhoeddus mewn Pecyn Preifat, y tu fas i'r rhaglen benodol honno o ap Mod.Gov.

# Pori drwy becyn o ddogfennau





Pwyswch ar y clo i gloi'r sgrîn neu datglowch i glosio neu ymbellhau

Defnyddiwch y nodau tudalen sefydlog i symud rhwng eitemau agenda ac adroddiadau



Mae'r nodyn tudalen cyntaf yn dynodi'r eitem, mae'r ail yn dynodi bod gan yr eitem atodiadau ychwanegol

## Chwilio'r testun –





Dewiswch fotwm chwilio'r testun ac yna rhowch eich testun yn y blwch chwilio; gwasgwch y bysell 'return' a bydd y gair yn cael ei amlygu. I weld rhagor, defnyddiwch y saethau glas ar frig y sgrîn, ar yr ochr chwith.

# Ymlaen tudalen/ Yn ôl tudalen




## Chwilio yn ôl rhif y dudalen




Neidio i dudalen benodol – teipiwch rif y dudalen neu sgroliwch gan ddefnyddio'r bar

## Rhoi Nodiadau ar Bapurau/Ychwanegu nodau tudalen




Fideo ar sut mae rhoi nodiadau ar ddogfen drwy'r Ap (bydd yn agor mewn ffenestr newydd):


[uploads/47/Annotating a document.mp4](uploads/47/Annotating a document.mp4)

## Bwrw golwg ar y dogfennau yr ydych wedi rhoi nodiadau arnynt

Pan fyddwch wedi rhoi nodiadau ar ddogfen, os dewiswch y Pwyllgor y mae'r ddogfen yn perthyn iddo bydd yr eicon canlynol yn ymddangos wrth enw'r ddogfen yn y rhestr o ddogfennau, i ddynodi bod nodiadau arno.



Os hoffech weld pob dogfen yr ydych wedi rhoi nodiadau arnynt, caewch unrhyw ddogfennau sydd ar agor er mwyn mynd yn ôl i'r brif sgrîn a phwyswch ar 'Dogfennau sydd â nodiadau'.



## Diogelu dogfennau rhag cael eu dileu'n awtomatig

### Dewis y dogfennau perthnasol


Yn gyntaf, mae angen ichi ddewis y dogfennau yr hoffech eu diogelu rhag cael eu dileu'n awtomatig.

Caewch unrhyw ddogfennau sydd ar agor er mwyn mynd yn ôl i'r brif sgrîn.

Pwyswch ar enw'r Pwyllgor perthnasol (neu pwyswch ar 'Dogfennau sydd â nodiadau' os hoffech ddewis dogfennau o wahanol bwyllgorau).

Pwyswch ar eicon y cwpwrdd ffeilio ar frig eich sgrin, ochr dde.

Pwyswch ar y dogfennau er mwyn eu dewis (rhoddir tic wrth ochr y dogfennau a ddewisir).




Sylwer: gallwch ddad-ddewis dogfen a diciwyd drwy bwyso arni.

### Pinio dogfennau a diciwyd er mwyn eu diogelu rhag cael eu dileu'n awtomatig ar ôl y cyfnod a ddynodwyd

Fel y dangosir yn Adran 8.1, bydd yr holl ddogfennau y byddwch yn eu lawrlwytho drwy ap mod.gov yn cael eu dileu'n awtomatig ar ôl y cyfnod a nodwyd yn eich Gosodiadau , oni bai eich bod yn diogelu dogfennau penodol rhag cael eu dileu'n awtomatig.

Pwyswch ar eicon y pin ar waelod y sgrîn er mwyn pinio'r dogfennau y ticioch yn Adran 9.1.

Dangosir y dogfennau sydd wedi'u pinio gan eicon pin.




### Dad-binio dogfennau a diciwyd er mwyn iddynt gael eu dileu'n awtomatig ar ôl y cyfnod a ddynodwyd

Pwyswch ar eicon y pin ar waelod y sgrîn er mwyn dad-binio'r dogfennau y ticioch yn Adran 9.1.

### Dileu dogfennau y rhoddwyd nodiadau arnynt

Gallwch ddileu dogfennau y rhoddwyd nodiadau arnynt os nad ydych eisiau eu cadw ac nad ydych eisiau aros tan iddynt gael eu dileu'n awtomatig.


Pwyswch ar 'Dogfennau sydd â nodiadau'.

Pwyswch ar eicon y cwpwrdd ffeilio ar frig eich sgrin, ochr dde.

Ticiwch y dogfennau - sydd â nodiadau arnynt - yr hoffech eu dileu.

 Pwyswch ar yr eicon Sbwriel ar waelod y sgrîn – ni fydd y dogfennau y rhoddwyd nodiadau arnynt a gafodd eu ticio gennych bellach yn ymddangos yn y rhestr 'Dogfennau sydd â nodiadau'.

**Sylwer: peidiwch â phoeni os byddwch yn dileu dogfen wreiddiol (hynny yw, un heb nodiadau) ar gam. Bydd eicon y ddogfen yn cael ei droi'n lliw llwyd yn rhestr y dogfennau. Y cyfan sydd angen ichi ei wneud yw pwyso ar yr eicon i'w lawrlwytho eto neu fe gaiff ei lawrlwytho'n awtomatig gyda'r diweddariad nesaf.**



## Pwyswch ar ddogfen i'w lawrlwytho a'i darllen:

| | |
|---|---|
| | **Agenda** |
| | **Cofnodion** |
| | **Dogfennau pellach/adroddiad atodol** |
| | **Dogfen wrthi'n lawrlwytho** |
| | **Â nodiadau** |
| | **Dileu (sweipiwch enw'r ddogfen i'w hagor)** |

## Pori trwy'r dogfennau

| | |
|---|---|
| | **Neidio i'r nodau tudalen** |
| | **Neidio i'r nodiadau** |
| | **Chwilio'r testun** |
| | **Yn ôl tudalen** |
| | **Ymlaen tudalen** |
| | **Neidio i dudalen rhif... – teipiwch rif y dudalen** |

## Eiconau nodiadau

| | |
|---|---|
| | **Amlygu** |
| | **Ysgrifennu / darlunio** |
| | **Tanlinellu testun** |
| | **Teipio** |
| | **Derbyn nodiadau** |

Mae angen ennyd ar ddogfennau a lawrlwythwyd yn ddiweddar cyn y gellir rhoi nodiadau arnynt. Pan fydd y ddogfen yn barod bydd yr eiconau hyn sy'n ymwneud â nodiadau a phori yn ymddangos ar waelod y sgrin